Preifatrwydd

1. Cyflwyniad

1.1 Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd y rhai sy'n ymweld â'n gwefan; yn y polisi hwn, rydym yn esbonio sut y byddwn yn trin eich gwybodaeth bersonol.

1.2 Drwy ddefnyddio ein gwefan a chytuno â'r polisi hwn, rydych yn cydsynio i ni ddefnyddio cwcis, yn unol â thelerau'r polisi hwn.

2. Cydnabyddiaeth

2.1 Cafodd y ddogfen hon ei chreu yn defnyddio templed gan SEQ Legal

3. Casglu gwybodaeth bersonol

3.1 Mae modd i ni gasglu, storio a defnyddio'r mathau canlynol o wybodaeth bersonol:

(a) gwybodaeth am eich cyfrifiadur ac am eich ymweliadau â'r wefan hon a'ch defnydd ohoni (gan gynnwys eich cyfeiriad IP, lleoliad daearyddol, math o borwr a fersiwn, system weithredu, ffynhonnell gyfeirio, hyd yr ymweliad, pa dudalen yr edrychwyd arnynt a llwybrau mordwyo gwefan);

(b) gwybodaeth yr ydych chi yn ei darparu i ni at ddibenion tanysgrifio i'n hysbysiadau e-bost a/neu gylchlythyrau (gan gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad e-bost);

(c) gwybodaeth yr ydych chi yn ei darparu i ni wrth ddefnyddio'r gwasanaethau ar ein gwefan, neu sy'n cael ei chynhyrchu tra boch yn defnyddio'r gwasanaethau hynny (gan gynnwys amseru, amlder a phatrwm y defnydd a wnewch o'r gwasanaethau);

(d) gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau a brynwch gennym, neu unrhyw drafodion eraill yr ydych yn eu gwneud drwy ein gwefan (gan gynnwys eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost);

(e) gwybodaeth yr ydych chi yn ei hanfon wrth gyfathrebu â ni neu yn ei hanfon trwy ein gwefan neu wybodaeth sy'n gysylltiedig â hynny (gan gynnwys cynnwys cyfathrebu a metadata sy'n gysylltiedig â'r cyfathrebu); a

(f) unrhyw wybodaeth bersonol arall yr ydych yn dewis ei hanfon atom.

3.2 Cyn i chi ddatgelu i ni wybodaeth bersonol am berson arall, mae'n rhaid i chi gael caniatâd y person hwnnw ar gyfer datgelu a phrosesu'r wybodaeth bersonol honno yn unol â'r polisi hwn.

4. **Defnyddio gwybodaeth bersonol**

4.1 Bydd gwybodaeth bersonol a gyflwynwyd i ni drwy ein gwefan yn cael ei defnyddio at y dibenion a nodir yn y polisi hwn neu ar dudalennau perthnasol y wefan.

4.2 Cawn ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol:

(a) i weinyddu ein gwefan a'n busnes;

(b) i anfon nwyddau atoch a brynwyd trwy ein gwefan;

(c) i roi gwasanaethau i chi a brynwyd trwy ein gwefan;

(d) i anfon cyfathrebiadau masnachol atoch nad ydynt yn ymwneud â marchnata;

(e) i anfon hysbysiadau e-bost atoch yr ydych wedi gofyn yn benodol amdanynt;

(f) i anfon ein cylchlythyr e-bost atoch, os ydych wedi gofyn amdano (gallwch roi gwybod i ni ar unrhyw adeg os nad oes arnoch angen y cylchlythyr mwyach);

(g) i anfon cyfathrebiadau marchnata atoch yn ymwneud â'n busnes y credwn y byddai o ddiddordeb i chi, drwy'r post neu, pan ydych wedi cytuno'n benodol i hynny, drwy e-bost neu dechnoleg debyg (gallwch roi gwybod i ni ar unrhyw adeg os nad ydych bellach angen cyfathrebiadau marchnata);

(h) i ddarparu gwybodaeth ystadegol i drydydd parti am ein defnyddwyr (ond ni fydd modd i'r trydydd parti hynny adnabod unrhyw ddefnyddiwr unigol o'r wybodaeth honno);

(i) i ymdrin ag ymholiadau a chwynion gennych chi neu amdanoch chi mewn perthynas â'n gwefan;

(j) i gadw ein gwefan yn ddiogel ac i atal twyll; ac

(k) i wirio cydymffurfiaeth â'r telerau a'r amodau sy'n rheoli'r defnydd a wneir o'n gwefan.

4.3 Ni fyddwn, heb gael caniatâd penodol gennych, yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol ganddynt hwy neu unrhyw drydydd parti arall.

4.4 Mae holl drafodion ariannol ein gwefan yn cael eu trin drwy ein darparwr gwasanaethau talu, *Web Ticket Manager*. Gallwch adolygu polisi preifatrwydd y darparwr drwy glicio yma. Dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddibenion prosesu taliadau yr ydych chi yn eu gwneud drwy ein gwefan, ad-dalu taliadau o'r fath ac ymdrin â chwynion ac ymholiadau yn ymwneud â thaliadau ac ad-daliadau o'r fath y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda darparwr ein gwasanaethau talu.

5. Datgelu gwybodaeth bersonol

5.1 Cawn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw un o'n gweithwyr, swyddogion, yswirwyr, cynghorwyr proffesiynol, asiantau, cyflenwyr neu isgontractwyr i'r graddau y bo'n rhesymol angenrheidiol at y dibenion a nodir yn y polisi hwn.

5.2 Cawn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i unrhyw aelod o'n grŵp o gwmnïau (mae hyn yn golygu ein his-gwmnïau, ein cwmni daliannol terfynol a'i holl is-gwmnïau) i'r graddau y bo'n rhesymol angenrheidiol at y dibenion a nodir yn y polisi hwn.

5.3 Cawn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol:

(a) i'r graddau y mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith;

(b) mewn cysylltiad ag unrhyw achos cyfreithiol cyfredol neu ddisgwyliedig;

(c) er mwyn sefydlu, ymarfer neu amddiffyn ein hawliau cyfreithiol (gan gynnwys rhoi gwybodaeth i eraill at ddibenion atal twyll a lleihau risg credyd);

(d) i'r prynwr (neu ddarpar brynwr) unrhyw fusnes neu ased yr ydym yn eu gwerthu (neu yn ystyried eu gwerthu); ac

(e) i unrhyw berson yr ydym ni'n credu'n rhesymol y gallent wneud cais i lys neu i awdurdod cymwys arall am ddatgelu'r wybodaeth bersonol honno, pan fyddai'r llys neu awdurdod o'r fath, yn ein barn resymol ni, yn eithaf tebygol o orchymyn datgelu'r wybodaeth bersonol honno.

5.4 Ac eithrio fel y darperir yn y polisi hwn, ni fyddwn yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti.

6. Trosglwyddo data yn rhyngwladol

6.1 Efallai y bydd gwybodaeth a gasglwn yn cael ei storio a'i phrosesu a'i throsglwyddo yn neu rhwng unrhyw un o'r gwledydd yr ydym yn gweithredu ynddynt er mwyn ein galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth yn unol â'r polisi hwn.

6.2 Efallai y bydd gwybodaeth a gasglwn yn cael ei throsglwyddo i wledydd eraill nad oes ganddynt ddeddfau diogelu data sy'n cyfateb i'r rheiny sydd mewn grym yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

6.3 Efallai y bydd gwybodaeth bersonol yr ydych yn ei chyhoeddi ar ein gwefan neu yn ei chyflwyno i'w chyhoeddi ar ein gwefan ar gael, drwy'r rhyngrwyd, ledled y byd. Ni fedrwn atal eraill rhag defnyddio neu gamddefnyddio gwybodaeth o'r fath.

6.4 Rydych yn cytuno yn unswydd i drosglwyddo'r wybodaeth bersonol a ddisgrifir yn Adran 6.

7. Cadw gwybodaeth bersonol

7.1 Mae Adran 7 yn amlinellu ein polisïau a'n gweithdrefnau cadw data, sydd wedi eu cynllunio i helpu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â chadw a dileu gwybodaeth bersonol.

7.2 Ni fydd data personol a broseswyd at unrhyw ddiben neu ddibenion yn cael eu cadw am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

7.3 Er gwaethaf darpariaethau eraill Adran 7, byddwn yn cadw dogfennau (gan gynnwys dogfennau electronig) sy'n cynnwys data personol:.

(a) i'r graddau y mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith;

(b) os credwn y gall y dogfennau fod yn berthnasol i unrhyw achos cyfreithiol cyfredol neu ddisgwyliedig; a

(c) er mwyn sefydlu, ymarfer neu amddiffyn ein hawliau cyfreithiol (gan gynnwys rhoi gwybodaeth i eraill at ddibenion atal twyll a lleihau risg credyd).

8. **Diogelwch gwybodaeth bersonol**

8.1 Byddwn yn cymryd camau technegol a threfniadol rhesymol i atal colli, camddefnyddio neu newid eich gwybodaeth bersonol.

8.2 Byddwn yn storio'r holl wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu ar ein gweinyddion diogel (a ddiogelir â chyfrinair a wal dân).

8.3 Ni wneir unrhyw drafodion ariannol ar ein gwefan, ond bydd yr holl drafodion ariannol electronig a wneir drwy wefan Web Ticket Master yn cael eu diogelu gan dechnoleg amgryptio (gweler eu datganiad preifatrwydd).
8.4 Rydych yn cydnabod bod trosglwyddo gwybodaeth dros y rhyngrwyd yn anniogel yn ei hanfod, ac ni allwn warantu diogelwch data a anfonir dros y rhyngrwyd.

9. Diwygiadau
9.1 Efallai y byddwn yn diweddaru'r polisi hwn o bryd i'w gilydd trwy gyhoeddi fersiwn newydd ar ein gwefan.

9.2 Dylech ddarllen y dudalen hon o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eich bod yn hapus ag unrhyw newidiadau i'r polisi hwn.

10. Eich Hawliau
10.1 Cewch roi cyfarwyddyd i ni roi unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch i chi; bydd darparu gwybodaeth o'r fath yn amodol ar:

(a) dalu ffi (sydd ar hyn o bryd yn £10); a

(b) gyflenwi tystiolaeth briodol o bwy ydych (at y diben hwn, byddwn fel arfer yn derbyn llungopi o'ch pasbort wedi ei ardystio gan gyfreithiwr neu fanc yn ogystal â chopi gwreiddiol o fil cyfleustod sy'n dangos eich cyfeiriad presennol).

10.2 Efallai y byddwn dal gwybodaeth bersonol yr ydych yn gofyn amdani yn ôl i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith.

10.3 Cewch roi cyfarwyddyd i ni ar unrhyw adeg i beidio â phrosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata.

10.4 Yn ymarferol, byddwch fel arfer naill ai'n cytuno'n ffurfiol ymlaen llaw i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata, neu byddwn yn rhoi cyfle i chi ddewis optio allan o ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata.

11. Gwefannau trydydd parti

11.1 Mae ein gwefan yn cynnwys manylion am wefannau trydydd parti a hyperddolenni iddynt.

11.2 Nid oes gennym unrhyw reolaeth dros bolisïau ac arferion preifatrwydd trydydd parti, ac nid ydym yn gyfrifol amdanynt.

12. Diweddaru gwybodaeth
12.1 Rhowch wybod i ni os oes angen cywiro neu ddiweddaru'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi.

13. Cwcis
13.1 Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis.

13.2 Ffeil sy'n cynnwys dynodwr (rhes o lythrennau a rhifau) yw cwci sy'n cael ei hanfon gan weinydd gwe i borwr gwe ac yn cael ei storio gan y porwr. Yna, caiff y dynodwr ei anfon yn ôl at y gweinydd bob tro y mae'r porwr yn gofyn am dudalen gan y gweinydd.

13.3 Gall cwcis fod naill ai yn rai "parhaus" neu yn rhai "sesiynol": bydd cwci parhaus yn cael ei storio gan borwr gwe a bydd yn parhau i fod yn ddilys tan y dyddiad a osodwyd iddo ddod i ben, oni bai y caiff ei ddileu gan y defnyddiwr cyn y dyddiad dod i ben; mae cwci sesiynol, ar y llaw arall, yn dod i ben ar ddiwedd sesiwn y defnyddiwr, pan gaeir y porwr gwe.

13.4 Fel arfer nid yw cwcis yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n cynnig modd o adnabod defnyddiwr yn bersonol, ond efallai bod gwybodaeth bersonol yr ydym ni yn ei storio amdanoch yn gysylltiedig â'r wybodaeth sydd wedi'i storio mewn cwcis ac a gafwyd ohonynt.

13.5 Rydym yn defnyddio cwcis parhaus a sesiynol ar ein gwefan.

13.6 Mae enwau'r cwcis yr ydym yn eu defnyddio ar ein gwefan, a'r dibenion y cânt eu defnyddio ar eu cyfer, yn cael eu hamlinellu yn Datganiad Cwcis
13.7 Mae'r rhan fwyaf o borwyr yn caniatáu i chi wrthod derbyn cwcis; er enghraifft:

(a) yn Internet Explorer (fersiwn 11) gallwch rwystro cwcis drwy ddefnyddio'r gosodiadau diystyru ar gyfer trin cwcis trwy glicio ar "Offer", "Dewisiadau'r Rhyngrwyd", "Preifatrwydd" ac yna "Mwy";

(b) yn Firefox (fersiwn 44) gallwch rwystro pob cwci trwy glicio ar “Dewisiadau”, “Preifatrwydd”, gan ddewis “Defnyddio gosodiadau cyfaddasu ar gyfer hanes” o’r gwymplen, dad-dicio “Derbyn cwcis o wefannau “; ac

(c) yn Chrome (fersiwn 48), gallwch rwystro pob cwci trwy fynd i’r ddewislen “Customise and control”, a chlicio ar “Settings”, “Show advanced settings” a “Content settings”, ac yna dewis ” Block sites from setting any data” o dan y pennawd ‘Cookies”.

13.8 Bydd rhwystro cwcis yn cael effaith negyddol ar ddefnyddioldeb sawl gwefan.

13.9 Os ydych yn rhwystro cwcis, ni fyddwch yn gallu defnyddio’r holl nodweddion ar ein gwefan ni.

13.10 Gallwch ddileu cwcis sydd eisoes wedi eu storio ar eich cyfrifiadur; er enghraifft:

(a) yn Internet Explorer (fersiwn 11), rhaid i chi ddileu ffeiliau cwcis â llaw (gallwch ddod o hyd i gyfarwyddiadau ar gyfer gwneud hynny yn http://windows.microsoft.com/en-gb/internet-explorer/delete-manage-cookies# ie = ie-11);

(b) yn Firefox (fersiwn 44) gallwch rwystro pob cwci trwy glicio ar “Dewisiadau”, “Preifatrwydd”, gan ddewis “Defnyddio gosodiadau cyfaddasu ar gyfer hanes” o’r gwymplen, clicio ar “Dangos Cwcis”, ac yna clicio ar “Tynnu Popeth”; ac

(c) yn Chrome (fersiwn 48), gallwch ddileu pob cwci trwy fynd i’r ddewislen “Customise and control”, a chlicio ar “Settings”, “Show advanced settings” a “Clear browsing data”, ac yna dewis “Cookies and other site and plug-in data” cyn clicio “Clear browsing data”.

13.11 Bydd dileu cwcis yn cael effaith negyddol ar ddefnyddioldeb sawl gwefan.

14. **Eich manylion**
14.1 Mae’r wefan hon yn eiddo i Atyniadau Eryri a chaiff ei gweithredu ganddynt.

14.2 Rydym wedi ein cofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif cofrestru 07620063, ac mae ein swyddfa gofrestredig yn Atyniadau Eryri, Y Ffôr, Pwllheli, Gwynedd LL53 6PG.

14.3 Ein prif fan busnes yw Atyniadau Eryri, Y Ffôr, Pwllheli, Gwynedd LL53 6PG.

14.4 Gallwch gysylltu â ni:

(a) drwy'r post, gan ddefnyddio'r cyfeiriad post a roddwyd uchod;

(b) drwy ddefnyddio ein ffurflen gyswllt ar y wefan;

(c) dros y ffôn 01766 810715

(d) drwy e-bost, gan ddefnyddio post@snowdoniapass.co.uk